LIFE LONG LEARNING 4 LIVING CYF

ARGRAFFIAD 2026



# PLAS LLANNERCHRUGOG

DATGANIAD O DDIBEN

# CROESO

Rydym wedi paratoi'r Datganiad o Ddiben hwn ar gyfer ein gwasanaethau ym Mhlas Llannerchrugog i'ch cyflwyno gyda chymaint â phosib o wybodaeth ddefnyddiol.

Mae Plas Llannerchrugog yn cynnig gwasanaeth preswyl ar gyfer oedolion gan Life Long Learning 4 Living Cyf ers 2007. Mae'r gwasanaeth yn canolbwyntio ar greu amgylchedd therapiwtig a gweithredu mewn modd mor debyg â phosib i unrhyw gartref arferol yn y gymuned.

Mae'r fersiwn Cymraeg hon ar gael i'w lawrlwytho ac yn cael ei chynnig wrth ochr yn ochr â'r argraffiad Saesneg.

Os ydych yn dymuno gwneud ymholiad neu ddatgelu unrhyw wybodaeth bersonol, caiff y fath data ei drin yn gyfrinachol ac mewn cydymffurfiad â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR).

Am fwy o wybodaeth, gwelwch:

www.llanerchrugoghall.co.uk

## CYNNWYS

CROESO .......... 1
ADRAN 1: DARPARWR .......... 4
A) Proffil Y Darparwr .......... 4
ADRAN 2: DISGRIFIAD O LEOLIAD Y GWASANAETH .......... 5
A) Lleoliad .......... 5
B) Gwasanaethau a Chyfleusterau yn y Gymuned .......... 5
ADRAN 3: YNGHYLCH Y GWASANAETH A DDARPERIR .......... 6
A) Ystyr o Anghenion .......... 6
B) Ystod Oedrannau A Phobl Sy’n Defnyddio’r Gwasanaeth .......... 9
C) Lleoedd Ar Gael .......... 9
ADRAN 4: SUT Y DARPERIR Y GWASANAETH .......... 10
A) Derbyniadau .......... 10
B) Cynlluniau Personol [Asesu, Darparu ac Adolygu] .......... 12
C) Safon Gofal a Chymorth .......... 16
D) Iaith a Chyfathrebu .......... 20
ADRAN 5: TREFNIADAU STAFFIO .......... 21
A) Cymwysterau a Niferoedd Staff .......... 21
B) Lefelau Staffio .......... 22
C) Staff Arbenigol .......... 22
D) Lleoliadau Staff yn y Gwasanaeth .......... 23
E) Trefniadau ar Gyfer Tasgau Wedi’i Dirprwyo .......... 23
F) Trefniadau Goruchwylio .......... 23
G) Hyfforddi Staff .......... 24
ADRAN 6: CYFLEUSTERAU A GWASANAETHAU .......... 25
A) Nifer ystafelloedd .......... 26
B) Nifer Ystafelloedd gyda chyfleusterau En Suite .......... 26
C) Nifer o fannau bwyta .......... 26
D) Nifer o fannau cymunedol .......... 26
E) Cyfleusterau ymolchi arbenigol .......... 26
F) Offer Arbenigol .......... 26
G) Trefniadau Diogelwch mewn Lle a Defnydd CCTV .......... 26
H) Mynediad i Ofod a Chyfleusterau Tu Allan ar y Safle .......... 27

ARDAN 7: TREFNIADAU LLYWODRAETHU A MONITRO ANSAWDD .......... 28
A) Unigolyn Cyfrifol .......... 28
B) Strwythur Rheoli'r Gwasanaeth .......... 28
C) Sicrhau Ansawdd .......... 29
D) Cwynion .......... 30
E) Ymgynghori â Defnyddwyr Gwasanaeth, Staff ac Eraill .......... 31
Cysylltu Â Ni .......... 32

# ADRAN 1: DARPARWR

## A) PROFFIL Y DARPARWR

| | |
|---|---|
| Darparwr Gwasanaeth: | Life Long Learning 4 Living Cyf |
| Endid cyfreithiol: | Cwmni cyfyngedig [Tŷ'r Cwmnïau, Rhif. 06010203] |
| Unigolyn cyfrifol: | Mr. Peter Greenwood |
| Rheolwr y gwasanaeth: | Mr. Peter Greenwood |
| Enw'r gwasanaeth: | Plas Llannerchrugog |
| Cyfeiriad y gwasanaeth: | Plas Llannerchrugog,<br>Stryt y Plas,<br>Rhosllannerchrugog,<br>Wrecsam,<br>LL14 1TG |

## ADRAN 2: DISGRIFIAD O LEOLIAD Y GWASANAETH

### A) LLEOLIAD

Mae Plas Llannerchrugog yn sefyll ar gyrion cymuned pentref Rhosllannerchrugog. Y gred yw i'r plas fod wedi ei godi dechrau'r 18fed ganrif fel fferm yn wreiddiol ond mae wedi cael ei ddefnyddio i ddarparu gwasanaethau gofal ers y 1960au.

Mae Plas Llannerchrugog erbyn hyn yn cynnig gwasanaethau gofal preswyl ar gyfer oedolion gydag anableddau dysgu ac anghenion iechyd meddwl. Dyw'r gwasanaeth heb ei gofrestru i ddarparu gofal nyrsio.

Mae gan yr adeilad 14 ystafell wely ar gyfer defnyddwyr ein gwasanaethau a saith ystafell ymolchi (dau fath a phum cawod) dros dri llawr. Mae hefyd dwy lolfa, dwy ystafell fwyta a dwy gegin.

Er mwyn gwneud y mwyaf o'r lle awyr agored mae dwy ardd fawr wedi eu datblygu yn ogystal â gardd synhwyro sydd ar wahân er mwyn cefnogi unigolion gyda namau synhwyraidd.

**DALIWCH CTRL AR EICH BYSELLFWRDD A CHLICIO AR Y LLUN**



### B) GWASANAETHAU A CHYFLEUSTERAU YN Y GYMUNED

| RHOSLLANNERCHRUGOG | |
|---|---|
| BANCIO: | Peiriannau arian parod; Canghennau'r prif fanciau yn nhref Wrecsam [4 milltir i ffwrdd] |
| ADLONIANT: | Theatr y Stiwt; Amryw glybiau cymdeithasol |
| IECHYD: | Deintydd; Meddygfa; Fferyllydd; Siopau trin gwallt |
| SIOPA: | Pobydd; Co-op; Spar; Siopau prydau i fynd |
| CREFYDD: | Nifer o gapeli gwahanol enwadau o Gristnogaeth |
| CYMDEITHASOL: | Caffi cymunedol; Tafarndai |
| TRAFNIDAIETH: | Gwasanaeth bws pob hanner awr i dref Wrecsam [4 milltir i ffwrdd]; Tacsis |

## ADRAN 3: YNGHYLCH Y GWASANAETH A DDARPERIR

| A) YSTYR O ANGHENION |
|---|
| Mae ein gwasanaeth yn darparu gofal preswyl ar gyfer hyd at 15 oedolyn. Nid yw ein gwasanaeth yn darparu gofal nyrsio ac nid ydym yn gofrestredig i wneud felly. |

**ANABLEDDAU DYSGU CYFFREDINOL AC ANGHENION SYMUDEDD**

Mae ein gwasanaeth wedi'i gofrestru i ddarparu gofal preswyl ar gyfer hyd at bymtheg oedolyn cyn belled ein bod yn gallu cwrdd â'u hanghenion nhw. Yn hanesyddol, mae'r gwasanaeth wedi cefnogi oedolion yn bennaf gydag anableddau dysgu, anghenion symudedd ac anghenion iechyd meddwl.

I gefnogi'r holl unigolion ac anghenion yn ein gwasanaeth, mae nifer sylweddol o'n staff wedi eu hyfforddi i Lefel 3 mewn Gofal Iechyd a Chymdeithasol a Lefel 3 yn Addysg a Hyfforddiant er mwyn darparu ystyr o sgiliau a gweithgareddau datblygiad sy'n addas ar gyfer ffordd o fyw positif sy'n ysgogi ac yn rhoi boddhad. Mae'r cartref ei hun wedi ei fodelu ar sail canolfan adnoddau gyda phwyslais trwm ar gyflawni amcanion trwy ddatblygu sgiliau bywyd megis coginio, glanhau, garddio, siopa, smwddio, gofal personol, datblygu hobïau, ac yn y blaen. Rydym yn wahanol fel lleoliad preswyl yn yr ystyr bod gennym gyfleuster cam-i-lawr gyda thŷ ynghlwm sy'n cynnig dwy uned rhannol annibynnol i ganiatáu camau pellach i lawr. Mae'r dull hwn i ateb gofynion yn datblygu o hyd a'n gwasanaeth yn addasu yn rhagweithiol i ateb ystyr o anghenion.

Yn ogystal â chefnogi datblygiad yn seiliedig ar sgiliau, mae'r gwasanaeth yn helpu defnyddwyr i gymryd rhan mewn cyfleoedd ar gael trwy sefydliadau eraill. Yn y gorffennol rydym wedi cynnig y canlynol: mynychu coleg i gael cymwysterau lefel mynediad mewn gofal am anifeiliaid bach, astudiaethau moduron, a chyrsiau llythrennedd a rhifedd; mae gwaith gwirfoddol wedi ei wneud mewn siop Oxfam lleol; mae un person yn geidwad gwirfoddol mewn parc gwledig lleol ac mae nifer yn mynychu'r prosiect gardd Erlas a gwahanol gyfleoedd gwasanaethau dydd.

Rydym o hyd yn annog defnyddwyr i fentro i'r gymuned leol (Rhosllannerchrugog) boed gyda chefnogaeth neu yn annibynnol. Mae pobl yn cerdded a seiclo i'r pentref, mae gan bobl pas bws i fedru mynd i dref Wrecsam, ac rydym wedi helpu un person i basio ei brawf yrru a chadw ei gar ei hun. Mae gennym hefyd dau gerbyd i gludo pobl pan maen nhw angen. O ran cyfleusterau lleol, rydym wedi cefnogi unigolion i fynychu'r eglwys, i ddefnyddio swyddfa'r bost, i nôl arian, i siopa am bethau personol, i brynu papur newydd, i fynd i drin eu gwallt, i archebu bwyd i fynd, i fynychu theatr y Stiwt, i weld y deintydd a'r meddyg, i fynd at y fferyllydd, i bleidleisio mewn etholiadau, i ddefnyddio'r dafarn leol ar gyfer bingo yn arbennig, ac i fenthyg llyfrau o'r llyfrgell.

Mae'r gwasanaeth hefyd yn ymdrechu i gefnogi symud tu hwnt i'r gymuned leol. Tref Wrecsam yw prif hwb cyfleusterau'r ardal. Mae'r gwasanaeth wedi cynorthwyo unigolion i fynychu Slimming World, mynd i'r gampfa, defnyddio pyllau nofio, mynychu digwyddiadau tymhorol fel marchnad Nadolig Wrecsam, ffeiriau haf a Sul y Cofio, i gerdded mewn parciau gwledig ac i ddefnyddio'r system camlas.

**ANGHENION PELLACH AC ARBENNIG**

Yn ogystal â chefnogi anghenion ar gyfer yr holl a ddisgrifiwyd uchod, mae gan y gwasanaeth brofiad helaeth yn cefnogi unigolion gydag anghenion pellach megis:

- Anaf Caffaeledig i'r Ymennydd [ABI]
- Anhwylder Sbectrwm Awtistaidd
- Dementia
- Diabetes
- Syndrom Down
- Epilepsi
- Anghenion Iechyd Meddwl
- Nam ar y Synhwyrau

**ANAF CAFFAELEDIG I'R YMENNYDD (ABI)**

Mae gan y gwasanaeth hanes o ddarparu cymorth i unigolion sydd wedi cael anaf i'r ymennydd, gan gynnwys sefyllfaoedd ble mae hyn yn un ymhlith nifer o anghenion. Tra gellir ein gweld yn bennaf fel darparydd gwasanaeth ar gyfer anableddau dysgu, gellir ystyried bod ABI yn anabledd dysgu caffaeledig am ei fod yn aml yn digwydd yn hwyrach mewn bywyd ac felly yn cael effaith ar anghenion unigolyn mewn modd tebyg.

Rydym yn gweithio gyda darpariaethau iechyd allanol megis therapi iaith a llafar, ffisiotherapi, therapi galwedigaethol a chymorth iechyd meddwl trwy'r tîm anawsterau dysgu a chyfathrebu (CLD) lleol a darpariaeth fwy arbenigol pan fo angen.

**ANHWYLDERAU SBECTRWM AWTISTIAETH**

Mae'r gwasanaeth yn gweithio gydag unigolion ar y sbectrwm awtistiaeth ac mae gennym brofiad penodol o wneud felly mewn achos ble mae hefyd angen iechyd meddwl eilaidd. Mae'r gwasanaeth yn hyrwyddo'r cysyniad o amgylchedd sy'n therapiwtig ac yn ysgogi'r synhwyrau, fel y disgrifir yn 'Colled o'r Synhwyrau'. Mae'r gwasanaeth hefyd yn hyrwyddo'r cysyniad o strategaethau ymddygiad positif ac mae ein staff yn cael eu hyfforddi i ddeall a gweithredu hyn.

**DEMENTIA**

Mae'r gwasanaeth yn cefnogi unigolion sydd wedi cael diagnosis ffurfiol o ddementia a hefyd rhai sydd wedi datblygu dementia yn ychwanegol i anghenion eraill fel syndrom Down, er enghraifft. Rydym wedi cael y profiadau hyn gyda sawl defnyddiwr y gwasanaeth yn y gorffennol ac wedi sicrhau mynediad at arbenigwyr iechyd addas er mwyn cynnal a hyrwyddo gosodiad presennol yr unigolion. Mae hyn hefyd yn gynnwys syndrom Korsakoff. Mae gan y gwasanaeth bolisi manwl ar weithredu mesurau i sicrhau ein bod yn ymdrechu o hyd i ateb gofynion unigolion gyda dementia.

**DIABETES**

Math 1 [Inswlin Dibynnol] – Mae’r gwasanaeth yn cadw perthynas gweithio positif a da gyda nyrsys cymunedol sy’n ymweld â phobl yn eu cartrefi i weini inswlin. Rydym yn cadw cofnodion siwgr gwaed yn fanwl ac yn codi ymwybyddiaeth ymhlith staff o hyd o bwysigrwydd diet diogel. Darparir hyfforddiant arbenigol i fedru cymryd darlleniadau.

Math 2 – Mae’r gwasanaeth wedi gweithio yn y gorffennol gydag unigolion i reoli diabetes Math 2 trwy cyfuniad o feddyginiaeth ac hyd yn oed wedi gwrthdroi yr effeithiau gyda rheolaeth da o’u diet.

Yn greiddiol i gefnogaeth lwyddiannus mae datblygu sylfaen da o wybodaeth ymhlith ein staff ac mae hyfforddiant ar ddiabetes yn cael ei ddarparu fel rhan o’n cwricwlwm dysgu parhaus.

**SYNDROM DOWN**

Gall pobl gyda syndrom Down gweithredu yn wybyddol ar draws sbectrwm eang. Ein prif nod yw cynnig gofal ac ymgynghori gydag arbenigwyr iechyd i sicrhau ein bod yn darparu cymorth priodol ar gyfer unrhyw gyflyrau meddygol ychwanegol gall godi megis nam ar y synhwyrau, problemau anadlol, problemau gyda’r croen, ac anghenion corfforol a chyfathrebu, yn ogystal â dechrau dementia.

**EPILEPSI**

Mae gan y gwasanaeth brofiad helaeth o gefnogi unigolion gydag epilepsi. Mae ein staff wedi cael hyfforddiant i weini Buccal Midazolam ac mae’r gwasanaeth wedi gwneud defnydd o dechnolegau cynorthwyol i fonitro am ffitiau posib yn ystod y nos. Mae gan y gwasanaeth hanes o gynorthwyo unigolion gydag epilepsi i gael ffordd o fywyd annibynnol wrth eu helpu i reoli eu risgiau eu hunain pan allan o’r cartref mewn mannau cyhoeddus.

**MENTAL HEALTH NEEDS**

Mae gan lawer o’r bobl sy’n defnyddio ein gwasanaeth anghenion iechyd meddwl eilaidd naill ai oherwydd anabledd dysgu gwreiddiol neu o ganlyniad i fod wedi methu ag ymdopi gyda digwyddiad sylweddol neu fod yna sbardun sy’n ail-daro. Mewn rhai achosion cyn ei dderbyniad gall anghenion iechyd meddwl rhywun fod mor bennaf eu bod wedi gofyn ymyrraeth sylweddol fel arhosiad mewn ysbyty.

Rydym yn gweithio ar y cyd â thîm iechyd meddwl Tŷ Derbyn a gyda mynediad at seiciatryddion cymunedol, nyrsys seiciatrig yn y gymuned a staff ychwanegol pan fo’n briodol. Mae’r gwasanaeth yn cydnabod bod gan anghenion iechyd meddwl sawl newidyn ac mae ein staff wedi cael hyfforddiant i gefnogi anghenion megis anhwylder deubegwn, sgitsoffrenia, pryder cymdeithasu ac iselder.

Ni allwn dderbyn unigolion sydd angen ymyraethau fforensig.

**COLLED O'R SYNHWYRAU**

Mae gan nifer o'n defnyddwyr gwasanaeth namau ar eu synhwyrau ac maent yn manteisio ar fynediad i gymorth arbenigol pan fo angen. Gallwn ddarparu cefnogaeth i ddefnyddwyr gwasanaeth gyda pharlys yr ymennydd ysgafn i gymedrol a sicrhau mynediad at ffisiotherapi ac orthoteg os fydd angen, yn ogystal â gwasanaeth trin traed ar gyfer pob angen, yn enwedig diabetes. Ni allwn dderbyn unigolion sydd angen offer i'w codi.

Mae gennym brofiad o weithio gyda phobl â namau ar eu golwg – rhai sydd wedi angen hyfforddiant symudedd ac eraill sydd heb. Gallwn addasu'r amgylchedd a gweithgareddau yn ôl yr angen a gwneud defnydd o adnoddau fel Braille, cefnogaeth un-i-un pan fo angen, oriawr sy'n siarad, llyfrau llafar a phrint mawr, a chael mynediad at weithwyr cymdeithasol arbenigol. Mae gan bob defnyddiwr mynediad rheolaidd at optegydd a fydd hefyd yn sganio'r llygaid ac, os yw'r unigolyn yn ddiabetig, cynnal prawf llygaid ychwanegol yn flynyddol.

Mae gan sawl defnyddiwr teclyn cymorth clyw sy'n cael ei reoli a'u cefnogi yn effeithiol yn nhermau gofal cyffredinol o'r clustiau, cynnal a chadw'r ddyfais, gosod, glanhau a newid batris.

| **B) YSTOD OEDRANNAU A PHOBL SY'N DEFNYDDIO'R GWASANAETH** |
| --- |
| Mae'r gwasanaeth yn agored i unrhyw rai sy'n 18 a throsodd. Gall unigolion aros gyda'r gwasanaeth am ba bynnag hir y mae'n dewis tra bod modd diwallu ei anghenion. |

| **C) LLEOEDD AR GAEL** |
| --- |
| Mae gan y gwasanaeth lle i hyd at bymtheg o oedolion. |

# ADRAN 4: SUT Y DARPERIR Y GWASANAETH

## A) DERBYNIADAU

### DERBYNIAD WEDI’I GYNLLUNIO

Cyn y Derbyniad

Os oes gennych ddiddordeb mewn cael eich cartrefu gyda'n gwasanaeth, yna bydd aelod profiadol a chymwys o'r tîm rheoli yn dod allan i ymweld â chi a'ch man preswyl presennol. Pwrpas yr ymweliad hwn yw cynnal 'asesiad o anghenion' sy'n broses wrthrychol i'r gwasanaeth glywed oddi wrthych chi a phenderfynu a all ateb eich anghenion.

Bydd asesiadau o anghenion yn ystyried agweddau fel asesiad risg, asesu sgiliau ac unrhyw rwystrau i gael cyfleoedd cyfartal. Byddwn yn croesawu clywed beth yw barn aelodau'r teulu, ffrindiau ac unrhyw un arall yr hoffech fod yn rhan o'r broses. Mae'r broses hon yn gyfrinachol ac mae'r wybodaeth a gasglir yn cael ei ddefnyddio i ddatblygu cynllun cyflawni priodol.

Byddwn bob amser yn ymateb i ymholiadau gan roi cymaint o wybodaeth â phosib am ein gwasanaeth ac mewn fformatau sydd mwyaf defnyddiol i'ch helpu i wneud penderfyniadau. Rydym yn estyn croeso agored i'ch annog i ymweld â'r gwasanaeth ac i gynnwys teulu a ffrindiau yn y broses o ddod at benderfyniad terfynol.

Yn yr achos bod y proses asesu yn darganfod na allwn gwrdd â'ch anghenion, byddwn yn ymdrechu i gynnig cyngor ar bwy i gysylltu â nhw nesaf i'ch helpu.

Unwaith y bydd pecyn cymorth wedi'i adnabod a bod pob parti yn cytuno i fynd ymlaen â'r lleoliad, gellir gwneud trefniadau ar gyfer derbyniad.

Derbyniad

Ar y diwrnod derbyn byddwn yn rhoi canllaw defnyddiwr gwasanaeth i chi. Mi fydd yn cynnwys nifer o ddogfennau pwysig megis telerau ac amodau'r lleoliad yn ogystal ag unrhyw drefniadau o ran ffioedd.

Byddwn yn cynnig cyngor ar ba bethau sy'n bwysig dod â nhw gyda chi a byddwn yn eich helpu i addurno'ch ystafell. Bydd rhaid dod ag unrhyw ddodrefn ac eitemau personol mawr ymlaen llaw, ond byddwn yn gwneud trefniadau ar gyfer hyn. Caiff rhestr ei lunio i egluro pa ddodrefn sy'n perthyn i'r gwasanaeth a pha bethau yw'ch eiddo personol chi.

Ôl-Dderbyniad

Ar ôl eich derbyn i'r gwasanaeth, bydd cyfnod prawf yn cael ei gytuno. Mae hyn fel arfer yn gyfnod rhwng chwech a deuddeg wythnos. Ar ôl y cyfnod hwn, bydd adolygiad yn cael ei gynnal i sicrhau bod yr holl bartïon yn fodlon â'r lleoliad. Bydd yr adolygiad hwn hefyd yn rhoi cyfle i'r gwasanaeth baratoi a chyflwyno cynllun defnyddiwr gwasanaeth a thrafod y canlyniadau i'w dargedu gydag eraill.

**DERBYNIAD MEWN ARGYFWNG**

Gall argyfwng godi a'n gorfodi i wneud penderfyniadau am leoliad yn gyflym iawn, efallai oherwydd newid annisgwyl mewn amgylchiadau. Mewn achosion o'r fath, rydym yn anelu at fod mor hyblyg â phosib i leihau'r straen ar unigolion a theuluoedd.

Yn yr achos bod derbyniad brys, bydd aelod o staff sydd wedi cael hyfforddiant priodol yn gwneud pob ymdrech i gynnal asesiad cyn y derbyniad. Os na ellir cyflawni hyn, yna bydd cymaint o wybodaeth â phosib yn cael ei gasglu gan y parti sy'n cyfeirio'r defnyddiwr atom, a gan y defnyddiwr gwasanaeth a'i deulu lle bo modd. Unwaith y bydd swm rhesymol o wybodaeth wedi'i chasglu, byddwn yn ystyried a phenderfynu a ellir cynnig lleoliad.

Os gellir cynnig lleoliad, bydd am gyfnod dros dro o 48 awr. Os cytunir ar fynediad dros dro yna bydd asesiad yn cael ei gynnal wrth i'r defnyddiwr gyrraedd y gwasanaeth. Unwaith y bydd asesiad wedi'i gwblhau'n llwyddiannus a bod rheolwyr yn gallu gwneud penderfyniad gwybodus yna rhoddir gwybod i'r defnyddiwr gwasanaeth a'r parti sy'n ei gyfeirio atom a ellir cadarnhau'r derbyniad.

**DERBYNIAD SEIBIANT**

Mae derbyniadau er seibiant yn lleoliadau dros dro sydd fel arfer yn cael eu cynllunio fel datrysiad mewn amgylchiadau lle nad yw gofalwr yn gallu diwallu anghenion unigolyn am gyfnod byr, er enghraifft, os oes yn rhaid iddynt deithio am gyfnod oherwydd eu gwaith. Bydd lleoliadau seibiant yn cael eu cynllunio a'u cytuno gan ddilyn yr un drefn â derbyniad safonol a chaiff cynllun dros dro ei lunio i helpu bodloni arferion byddai gan yr unigolyn yn eu bywyd bob dydd fel arfer.

Gall derbyniadau seibiant hefyd ddigwydd mewn argyfwng, er enghraifft, lle mae angen lleoliad ar unwaith ond bod partïon yn gytûn nad yw'r gwasanaeth yn debygol o allu diwallu eu hanghenion yn yr hirdymor. Yn yr achos hwn, dilynir y weithdrefn derbyniadau brys a chytunir ar leoliad am gyfnod penodol.

**B) CYNLLUNIAU PERSONOL [ASESU, DARPARU AC ADOLYGU]**

Darparir y gwasanaeth gan ddefnyddio model sy'n seiliedig ar ddeilliannau gyda'r bwriad o gynorthwyo unigolion i gyrraedd y lefelau uchaf o fedru byw yn annibynnol ac wrth barchu dewis personol, diogelwch a lles.


Cynhaliodd Life Long Learning 4 Living broses ymgynghori eang gyda defnyddwyr y gwasanaeth a'n staff i edrych ar sut y dylid cyflwyno cynlluniau defnyddwyr gwasanaeth gan ystyried ffactorau megis cyfathrebu gwybodaeth, partïon a allai fod angen mynediad at y cynllun, cyflwyniad, hygyrchedd a rheoli gwybodaeth. Y prif bryder oedd y maint o wybodaeth sydd ei hangen i ateb gofynion statudol a rheoleiddiol a sut y byddai angen cyflwyno hyn mewn modd sy'n cyd-fynd â nodau ac amcanion y gwasanaeth.

Daeth dri phrif gynnig o'r ymgynghoriad:

1) **RHEOLI GWYBODAETH**: Dylid torri'r cynlluniau i lawr i nifer fwy o rannau gydag adrannau llai ac yn cynnwys gwybodaeth fwy manwl.

2) **STRWYTHUR** : Dylai'r cynllun fabwysiadu cylchred parhaus tri phwynt o Asesu, Darparu, Adolygu (ac yna ailasesiad). Dylai'r cynllun hwn agor gyda phroffil gyda'r bwriad o grynhoi gwybodaeth allweddol i drydydd partïon sydd o bosib ddim yn gyfarwydd â phrosesau mewnol.

3) **HYBLYGRWYDD** : Dylai'r dyluniad fod yn fodiwlaidd mewn natur fel bod lle i ddefnyddwyr gwasanaeth ychwanegu at y cynllun yn uniongyrchol fel ffordd o hyrwyddo cynhwysiant ac addasu i ofynion y dyfodol o ganlyniad i newidiadau mewn polisi a deddfwriaeth.



**ASESU**

Defnyddir dull amlochrog wrth asesu i sicrhau ein bod yn rhoi ystyriaeth ac yn cynllunio’n dda ar gyfer anghenion defnyddiwr gwasanaeth a’n dulliau darparu’r gwasanaeth. Mae pedair prif thema i’w hystyried: barn y defnyddiwr gwasanaeth; risgiau i’r defnyddiwr gwasanaeth; lefel cyfredol sgiliau bywyd; a materion cyfleoedd cyfartal.

Prif amcan y broses yw datblygu dealltwriaeth gynhwysfawr o anghenion a galluoedd y defnyddiwr gwasanaeth ac, yn bwysicaf oll, ei amcanion personol ac i ddefnyddio’r wybodaeth hon i greu rhaglen wedi’i arwain gan amcanion i gefnogi ffordd o fyw annibynnol.

Bydd ailasesiad yna yn cymryd lle yn ffurfiol fel rhan o’r broses adolygu flynyddol a’i bwydo nôl mewn i’r broses darparu i sicrhau cylchred parhaol o ddatblygiad.

<table>
<tr>
<td>A) MEWNBWN A HUNANASESIAD Y DEFNYDDIWR GWASANAETH<br><br>PWRPAS: Pwrpas yr ymarferiad hwn yw sicrhau bod yr unigolyn yn cyfrannu’n weithredol i siapio’r ddarpariaeth.<br><br>Gall unigolyn fod eisiau mynegi ei ddewisiadau personol am sut mae’r gofal yn cael ei ddarparu, trafod ei amcanion mewn bywyd a siarad am y pethau sydd bwysicach iddo fo neu iddi hi.<br><br>Rhan bwysig o’r elfen hon yw hunan asesiad sy’n rhoi cyfle i’r unigolyn feddwl am ble mae o mewn bywyd, pa heriau mae’n eu hwynebu, pa bethau mae’n ystyried i fod ei gryfderau a’i wendidau ac ym mha ffordd gall cefnogaeth eu helpu nhw.</td>
<td>B) ASESIAD RISG<br><br>PWRPAS: Pwrpas yr ymarferiad hwn yw adnabod a gwerthuso unrhyw risgiau i’r unigolyn, pa mor ddifrifol ydynt, a sut gellir eu rheoli.<br><br>Mae’r lefel o risg i ddefnyddiwr gwasanaeth yn deillio o fesur y tebygolrwydd o ddigwydd yn erbyn difrifoldeb y canlyniadau. Unwaith y bydd risg wedi ei hadnabod gwneir pob ymdrech yn y lle cyntaf i gael gwared ohoni yn llwyr. Fodd bynnag, pan na fydd hyn yn bosib, caiff cymorth ei ddarparu i reoli risgiau yn ddiogel.</td>
</tr>
<tr>
<td>C) ASESIAD SGILIAU BYWYD<br><br>PWRPAS: Pwrpas yr ymarferiad hwn yw ffurfio asesiad gwrthrychol o alluoedd yr unigolyn.<br><br>Tra bod asesiad risg yn rhoi ystyriaeth i faterion diogelwch, mae’r ymarferiad hwn yn edrych ar faterion ymarferol a sut gellir ymateb iddynt er mwyn gwella cyfranogiad; er enghraifft, a fyddai ffocysu ar ddatblygu set o sgiliau penodol yn helpu’r unigolyn i gyflawni amcan personol.<br><br>Cynhelir yr asesiad sgiliau iaith yn erbyn tasgau pob dydd yn gysylltiedig â phob pwynt yn y Fframwaith Deilliannau.</td>
<td>D) ASESIAD CYFLEOEDD CYFARTAL<br><br>PWRPAS: Pwrpas yr ymarferiad hwn yw adnabod unrhyw rwystrau i gyfranogiad a sut y gellir cael gwared ohonynt neu eu lleihau pan yn bosib.<br><br>Gall rwystrau i gyfranogiad bod mewn sawl ffurf. Er enghraifft, gall fod yn rhwystrau corfforol sydd angen mynd i’r afael â nhw wrth wneud addasiadau i’r amgylchedd neu gall rwystrau eraill ymwneud â chyfathrebu. Mae’n bosib na fydd pob rhwystr yn amlwg felly mae’n bwysig ystyried hyn fel rhan o’r broses asesu i helpu’r unigolyn datblygu sgiliau i gyflawni ei amcanion personol.</td>
</tr>
</table>

**DARPARU**

Darparir cynllun personol yn seiliedig ar 10 deilliant allweddol sydd wedi eu hadnabod gan Life Long Learning 4 Living fel rhai sy'n allweddol o ran datblygu ffordd o fyw yn annibynnol. Mae gweithredu'r cynllun yn canolbwyntio ar y cysyniad o 'Tuag Annibyniaeth' gan ofyn yr un cwestiwn o hyd: Pa gyfleoedd byddai'r unigolyn yn elwa ohonynt i sicrhau gwell cyfranogiad mewn cymdeithas?

| DEILLIANT | AMCAN(ION) ENGHREIFFTIOL |
|---|---|
| 1) Gweithgareddau, Hobïau a Chymdeithasol | I gefnogi datblygu sgiliau newydd a lles trwy gweithgareddau, hobïau a chyfleoedd cymdeithasol. |
| 2) Ymddygiad a Lles Emosiynol | I hyrwyddo ymddygiad positif a ffordd o fyw di-drais<br>I gynorthwyo gydag anghenion iechyd meddwl.<br>I archwilio a chefnogi cysyniadau o hunaniaeth sy'n bwysig i'r unigolyn. |
| 3) Cyfathrebu | I ddatblygu systemau cyfathrebu sy'n adlewyrchu anghenion unigolion.<br>I gefnogi mynediad at dechnoleg gwybodaeth. |
| 4) Gwasanaethau Dydd | I hyrwyddo gwell mynediad at wasanaethau allanol megis cyfleoedd gwaith a sicrhau partneriaethau effeithiol gyda'r darparwyr gwasanaethau hynny. |
| 5) Diet | I hyrwyddo pwysigrwydd diet cytbwys er lles corfforol a meddyliol. |
| 6) Ariannol | I hyrwyddo mynediad at wasanaethau ariannol.<br>I gefnogi cynllunio ar gyfer gwariant personol. |
| 7) Iechyd | I gefnogi annibyniaeth o fewn mynediad at wasanaethau iechyd.<br>I hyrwyddo hunanymwybyddiaeth unigolion o anghenion iechyd eu hunain. |
| 8) Rhifedd a Llythrennedd | I hyrwyddo llythrennedd a rhifedd fel sgiliau ymarferol allweddol sy'n tanategu datblygiad pob deilliant. |
| 9) Symudedd | I hyrwyddo a chefnogi mynediad at seilwaith trafnidiaeth.<br>I herio rhwystrau corfforol i gymryd rhan mewn pethau. |
| 10) Diwylliant Cymreig | I hyrwyddo cyfleoedd i ddysgu a phrofi'r iaith Gymraeg.<br>I hyrwyddo mynediad at safleoedd o bwys hanesyddol a diwylliannol i Gymru. |

**ADOLYGU**

Mae'r broses adolygu wedi ei chynllunio er mwyn caniatáu ystyr eang o adborth yn rheolaidd ar wahanol adegau ac mae'n agored i gynnwys trydydd partïon.

Mae enghreifftiau o adborth yn cynnwys:

- Adborth heb fod wedi gofyn amdano, megis canmoliaeth a chwynion.
- Adborth y gofynnir amdano, megis ymatebion i holiaduron.
- Adborth ffurfiol, megis cofnodion cyfarfodydd.

Mae adborth yn cael ei gasglu mewn grwpiau yn ôl tri chategori penodol:

**ADBORTH GAN YR UNIGOLYN**

Pwrpas y rhan hon yw creu mecanwaith adolygu sy'n agored o hyd ac yn caniatáu defnyddwyr gwasanaeth i roi adborth yn eu ffordd eu hunain. Tra bod adolygiad misol o bosib yn drafodaeth sy'n cael ei gofnodi yn ysgrifenedig, gall defnyddiwr fod eisiau mynegi rhywbeth mewn dull gwahanol heb fod yn gyfyngedig i unwaith y mis. Gall y gwasanaeth hefyd rhoi cyfleoedd i unigolion medru rhoi adborth penodol, er enghraifft, gan ddefnyddio arolygon ar bynciau fel bwyd a diod.

**ADOLYGIADAU GAN GWEITHWYR ALLWEDDOL**

Pwrpas y rhan hwn yw sicrhau cofnod ysgrifenedig o gyfarfodydd cynnydd un-i-un rhwng yr unigolyn a gweithiwr allweddol. Mae hyn yn berthynas bwysig, cyd-gynhyrchiol ac mae disgwyl i'r gweithiwr allweddol fod yn rhagweithiol a symud ymlaen unrhyw geisiadau neu ddatblygiadau sy'n codi.

Mae gweithiwr allweddol yn adolygu'r deilliannau targed y cytunwyd arnynt ac yn cofnodi unrhyw ddatblygiadau a cheisiadau gan unigolion ac fe'i cynhelir fel rheol unwaith bob un i dri mis.

**ADOLYGIADAU BLYNYDDOL**

Bydd yr adolygiad blynyddol yn cynnwys trydydd partïon o du allan i'r gwasanaeth ac yn dod a'r cylchred Asesu > Darparu > Adolygu yn swyddogol i'w ddiwedd. Mae'r cynllun yn cael ei ail-asesu a bydd deilliannau sy'n cael eu cytuno yn yr adolygiad blynyddol yn dod yn rhan o'r cynllun; bydd y ddarpariaeth felly yn adlewyrchu'r newidiadau cafwyd eu hamlygu yn yr ailasesiad ac mae'r cylchred yn parhau.

Bydd gan yr unigolyn y cyfle i wahodd pobl maen nhw'n awyddus iddynt fynychu'r cyfarfod adolygu. Darparir gwybodaeth ar wasanaethau eiriolaeth hefyd.

## C) SAFON GOFAL A CHYMORTH

Mae'r gwasanaeth wedi adnabod themâu y mae'n eu hystyried i fod yn safonau craidd gofal ac rydym yn eu hyrwyddo fel rhai sy'n hanfodol i les y defnyddiwr gwasanaeth:

- ✓ I gynnal lles corfforol, meddyliol ac emosiynol
- ✓ I hyrwyddo diogelwch
- ✓ I hyrwyddo gweithgareddau, hobïau a diddordebau cymdeithasol
- ✓ I gefnogi mynediad at addysg, dysgu a chyfleoedd datblygu
- ✓ I hyrwyddo annibyniaeth mewn bywyd pob dydd
- ✓ I gynnal hunaniaethau ieithyddol, diwylliannol a/neu grefyddol
- ✓ I gynnal perthnasau teuluol a phersonol

### Lles Corfforol, Meddyliol ac Emosiynol

Bydd ein gwasanaeth yn hyrwyddo ac yn cynnal iechyd ein defnyddiwr gwasanaeth ac yn sicrhau mynediad at wasanaethau ofal iechyd:

- Cefnogi gofal annibynnol pa bryd bynnag y mae'n ymarferol
- Cynnal hylendid personol a geneuol gan gynnwys mynediad at ddeintyddiaeth
- Adnabod mannau o risg, fel dolur gwasgu, a chymryd camau priodol
- Cael a dilyn cyngor ar faterion yn ymwneud ag ymataliad a sicrhau bod y gefnogaeth a'r offer angenrheidiol ar gael ac yn cael eu defnyddio
- Monitro iechyd meddwl a sicrhau ein bod yn darparu gofal ataliol ac adferol
- Darparu cyfleoedd priodol i ymarfer corff a gwneud gweithgareddau corfforol
- Asesu ac ymateb i anghenion maethol defnyddiwr gwasanaeth yn rheolaidd a monitro cynnydd neu golled pwysau
- Galluogi unigolion i gofnodi gyda meddyg teulu o'u dewis, yn amodol ar gytundeb y meddyg
- Hwyluso mynediad at wasanaethau meddygol, nyrsio, deintyddol, fferyllol, trin traed a therapiwtig, ac i ofal iechyd cymunedol neu ysbyty yn ôl yr angen
- Sicrhau mynediad at brofion clyw a llygaid ac i declynnau cymorth priodol
- Rhoi gwybod i berthynas agosaf neu gynrychiolydd yr unigolyn os fydd salwch difrifol neu farwolaeth

**Iechyd, Diogelwch a Lles yn Gyffredinol**

Bydd rheolwyr yn sicrhau iechyd, diogelwch a lles cyffredinol unigolion, staff ac ymwelwyr mor bell ag sy'n ymarferol bosib. I wneud hyn bydd aelod staff yn cael ei benodi yn Oruchwyliwr Iechyd a Diogelwch ac yn cael ei hyfforddi i wneud y swydd. Dyw'r gwasanaeth ddim yn rhwystro unigolion rhag gadael y safle ac ni fydd yn gyfrifol am anaf i unigolion, ymwelwyr na gwesteion sydd o achos esgeulustod trydydd parti nac am les unigolion dan eu gofal.

Mae'r system larwm tân yn cael ei brofi bob wythnos, gyda rhybudd yn cael ei roi cyn iddo gael ei ganu. Os fydd y larwm yn canu unrhyw bryd arall, peidiwch â chynhyrfu; arhoswch am gyfarwyddiadau gan staff neu ddilyn y cyfarwyddiadau neu lwybrau sy'n cael eu harddangos o gwmpas y safle. Pwrpas y gofrestr ar gyfer ymwelwyr i'r safle yw cynorthwyo staff mewn achos o argyfwng. I gydymffurfio â rheoliadau tân ac er diogelwch a chysur defnyddwyr a staff, ni chaniateir ysmygu.

**Trefnu Gweithgareddau [Mynediad at Weithgareddau, Hobïau a Diddordebau Cymdeithasol]**

Mae rhaglen o weithgareddau amrywiol mewn lle sy'n adlewyrchu anghenion a dymuniadau ein defnyddwyr gwasanaeth. Caiff hon ei hadolygu yn rheolaidd ac arddangosir gwybodaeth ar y bwrdd "Cymuned" yn yr ystafell fyw. Trefnir gweithgareddau ar gyfer grwpiau ac unigolion a gall defnyddwyr gwasanaeth dewis i gymryd rhan gymaint neu gyn lleied y maen nhw'n dymuno. Yn bellach, mae perthynas y gweithiwr allweddol yn rhoi cyfleoedd i ddefnyddwyr gwasanaeth trafod diddordebau newydd posib a chael cefnogaeth i gynllunio gweithgareddau.

**Cadw Arian Parod [Mynediad at Weithgareddau, Hobïau a Diddordebau Cymdeithasol]**

Mae'r gwasanaeth yn cydnabod y bydd ar ddefnyddwyr angen mynediad at ychydig o arian o bryd i'w gilydd i brynu neu dalu am bethau fel trin gwallt, gweithgareddau cymdeithasol, pethau ymolchi ac eitemau amrywiol eraill. Rydym yn cadw sêff arian barod ar y safle os yw'n well gan ddefnyddwyr gwasanaeth gadael unrhyw arian mân yn ddiogel gyda ni yn hytrach na'i gario gyda nhw.

Pan fydd defnyddiwr gwasanaeth yn dewis gadael arian parod ar y safle mae Plas Llannerchrugog yn ymrwymo i gymryd y camau canlynol i sicrhau bod yr arian yn cael ei warchod:

- I gadw arian pob defnyddiwr gwasanaeth ar wahân ac i'w gadw mewn ffydd ar gyfer y defnyddiwr gwasanaeth fel y gellir cael mynediad ato ar unrhyw bryd.
- I gadw cofnod manwl o drosglwyddiadau pob defnyddiwr gwasanaeth ac i sicrhau bod yr holl arian sy'n dod mewn ac allan yn cael ei gofnodi a'i llofnodi gan ddau aelod o staff.
- I gynnal archwiliad misol o adnau i sicrhau bod cyfriflenni yn gywir yn ôl y symiau sy'n bodoli yn y sêff.
- I hyrwyddo partneriaeth gwaith cryf a chyfathrebu da gyda'r rhai sy'n cael eu penodi i sicrhau bod arian parod ar gael i ddefnyddwyr gwasanaeth na sy'n gyfrifol am eu materion ariannol eu hunain.
- I sicrhau bod dogfennaeth berthnasol yn cael ei chadw gan y gwasanaeth o ran materion ariannol unigolyn a'i bod ar gael i'w gweld a'i archwilio gan y defnyddiwr gwasanaeth neu unrhyw berson(au) priodol arall.
- To ensure that relevant documentation kept by the service regarding an individual's finances is available for inspection by the service user and any other appropriate person(s).

**Mynediad at Addysg a Chyfleoedd Gwaith**

Mae gan y gwasanaeth deilliannau pwrpasol o fewn cynlluniau personol gyda'r bwriad o gefnogi mynediad at addysg a chyfleoedd gwaith, neu wasanaethau dydd.

Mae gan y gwasanaeth perthynas gwaith da gyda rhaglenni cyfleoedd sy'n cael eu rhedeg gan yr awdurdod lleol yn ogystal â cholegau lleol ac rydym yn y gorffennol wedi bod yn llwyddiannus yn sicrhau llefydd i astudio.

**Cefnogi Anghenion Ieithyddol, Diwylliannol a/neu Grefyddol [Cynnal Hunaniaeth Diwylliannol a/neu Grefyddol]**

Mae'r gwasanaeth yn cymryd rhan yn y cynnig gweithredol o ran y Gymraeg (gweler isod 'Iaith a Chyfathrebu').

Mae gan y gwasanaeth berthynas da gydag arweinyddion crefyddol lleol; Cristion yn bennaf ond rydym yn y gorffennol wedi diwallu anghenion unigolyn Islamaidd yn llwyddiannus, gan gynnwys materion diwylliannol cysylltiedig megis diet. Bydd y gwasanaeth yn gweithio gyda'r unigolyn i gefnogi mynediad at wasanaethau crefyddol ac amseroedd gweddïo yn ôl dymuniad unigolion.

**Cyfathrebu [Cynnal Perthynas Personol a Theuluol]**

Mae'r gwasanaeth yn cydnabod gall teuluoedd a ffrindiau fod eisiau anfon post fel pecynnau neu gardiau cyfarchion; derbynnir y post gan staff a'i osod yn y brif swyddfa i'w gasglu bob dydd. Os yw defnyddiwr gwasanaeth eisiau anfon post, bydd staff yn medru dweud ble mae'r blwch post agosaf neu os oes angen cymorth gallwn wneud trefniadau i gefnogi mynediad i'r gwasanaeth post.

Mae'r gwasanaeth yn darparu mynediad i ffôn talu sydd yn y brif swyddfa ar y llawr ddaear. Mae'r gwasanaeth hefyd yn cefnogi defnydd o dechnoleg ffonau symudol ac wedi ymrwymo i gynorthwyo defnyddwyr i ddysgu sut i'w defnyddio a'u cynnal fel modd o fod yn annibynnol; os yw hyn o ddiddordeb i chi, cysylltwch â'r Rheolwr Cofrestredig, os gwelwch yn dda.

**Ymwelwyr [Cynnal Perthynas Personol a Theuluol]**

Anogir defnyddwyr gwasanaeth i gael ymwelwyr ac mae'r gwasanaeth yn credu ei fod yn bwysig parhau i gynnal cyswllt gyda theulu a ffrindiau gan fod hyn yn effeithio yn bositif ar les unigolyn.

Does dim oriau penodol ar gyfer ymwelwyr yn ystod y dydd ac felly mae croeso i westeion unrhyw bryd rhwng 8am ac 8pm. Dylai ymwelwyr tu allan i'r oriau hyn gwneud trefniadau gyda'r gwasanaeth ymlaen llaw; mae hyn er mwyn gwarchod hawliau'r defnyddwyr gwasanaeth eraill i fedru mwynhau'r lleoliad ac yn enwedig unrhyw unigolion sy'n cysgu. Yn yr achos bod aelod o staff ddim yn adnabod ymwelydd byddant yn gofyn i weld rhywbeth sy'n dangos pwy ydych chi ac yn gwirio gyda'r defnyddiwr gwasanaeth ei fod yn ei nabod ac yn dymuno ei weld (plîs peidiwch â theimlo'n ddrwg os ydych yn cael eich herio; mae hyn er diogelwch pawb).

Mae ymwelwyr yn cytuno i rai amodau tra ar y safle:

- I brofi pwy ydyn nhw yn yr achos bod aelod staff yn gofyn iddynt adnabod eu hunain
- I adael yn dawel a heb wrthwynebiad os yw'r unigolyn maen nhw'n ymweld ag yn gofyn iddyn nhw adael
- I arwyddo mewn ac allan ar gofrestr y safle
- I gydymffurfio â chyfarwyddiadau staff ac i ymddwyn mewn modd na sy'n tarfu ar fwynhad heddychlon o'r cartref
- I sicrhau bod ymwelwyr na sy'n oedolion yn cael eu gwylio trwy'r amser gan unigolyn
- I beidio â dod ac anifeiliaid i'r adeilad
- I adael yr adeilad os oes angen gwneud ac i ddilyn cyfarwyddiadau gan swyddogion tân
- I beidio ag ysmygu tu fewn i'r adeiladau nac yn unman ond y mannau dynodedig ar gyfer ysmygu
- I drafod gyda rheolaeth y safle cyn dod ag unrhyw feddyginiaeth, bwyd, sigaréts, alcohol, nac eitemau gyda'r potensial o achosi tân, megis tanwyr, ar y safle
- I beidio â dod ar y safle ag unrhyw eitemau peryglus y gellir eu hystyried yn rhesymol i fod yn creu risg i ddiogelwch eraill ar y safle
- I beidio â dod ar y safle ag unrhyw offer recordio nac i dynnu unrhyw luniau heb ganiatâd, er mwyn gwarcho preifatrwydd defnyddwyr eraill y gwasanaeth

Bydd mynd yn groes i unrhyw un o'r amodau uchod yn arwain at ymwelwyr yn cael eu gofyn i adael y safle. Yn bellach, ni fyddem yn goddef unrhyw ymddygiad ymosodol, gan gynnwys cam-drin geiriol, tuag at ein staff. Gall ymddygiad ymosodol arwain at waharddiad o ddod ar y safle eto.

## D) IAITH A CHYFATHREBU

Gall y gwasanaeth cydweithio â sefydliadau eraill i gwrdd â nifer o anghenion cyfathrebu megis cyflwyno Braille a Makaton i'r cartref. Mae'r gwasanaeth wedi gweithio yn helaeth ar ei strategaeth cynnig gweithredol o wasanaeth Cymraeg a sut y gallem gynnig diwylliant sy'n hyrwyddo mynediad at y gwasanaeth yn Gymraeg mor bell ag sy'n ymarferol bosib.

### CYNNIG GWEITHREDOL Y GYMRAEG

Dyma rhai enghreifftiau o'r hyn rydym wedi gwneud i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg yn ein gwasanaeth:

| MAES TARGED | GWEITHRED(OEDD) |
|---|---|
| Cynlluniau Defnyddwyr Gwasanaeth | • Gofynnir i ddefnyddwyr nodi pa iaith maen nhw'n ei ffafrio a chofnodir yr ymateb yn y cynllun.<br>• Mae'r fframwaith allbynnau yn cynnwys cyfleoedd i ddysgu'r Gymraeg yn ogystal ag integreiddio'r iaith mewn i weithgareddau eraill megis coginio bwydydd traddodiadol Cymreig. |
| Recriwtio Staff | • Nodir fod y gallu i siarad Cymraeg yn sgil dymunol mewn swydd-ddisgrifiadau.<br>• Gofynnir i ymgeiswyr sy'n cael cyfweliad am eu gallu i siarad Cymraeg ac i ddangos hyfedredd yn yr achos eu bod yn rhoi ymateb cadarnhaol. |
| Dogfennau | • Mae'r ddogfen hon, ein Datganiad o Ddiben, ar gael yn Gymraeg.<br>• Mae defnyddwyr sy'n datgan ei bod yn ddwyieithog (Cymraeg a Saesneg) yn derbyn y ddwy copi o'r dogfennaeth.<br>• Mae cyfathrebiadau rydym yn eu derbyn yn Gymraeg yn cael eu hateb yn Gymraeg. |
| Amgylchedd | • Cyflwynir arwyddion yn ddwyieithog ble bynnag yn bosib.<br>• Ceir defnyddwyr sydd â diddordeb mewn dysgu Cymraeg eu cynorthwyo i labelu eitemau personol yn Gymraeg, e.e. dodrefn, teledu, ayyb. |
| Cymdeithas | • Cefnogir defnyddwyr i dderbyn gwasanaethau cymunedol yn Gymraeg<br>• Cefnogir defnyddwyr i fedru gwylio S4C<br>• Cyflwynir defnyddwyr gwasanaeth i etholiadau Cymreig a chefnogir nhw i gymryd rhan |

## ADRAN 5: TREFNIADAU STAFFIO

| A) CYMWYSTERAU A NIFEROEDD STAFF |
|---|

| ENW | SWYDD | PRIF GYMHWYSTER |
|---|---|---|
| O. Greenwood | Rheolwr Cofrestredig | Diploma Lefel 5 mewn Arweinyddiaeth mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol |
| G. Greenwood | Dirprwy Reolwr | Diploma Lefel 5 mewn Arweinyddiaeth mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol |
| G. Gregory | Dirprwy Reolwr | Diploma Lefel 5 mewn Arweinyddiaeth mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol |
| C. Austin | Uwch Weithiwr Cynorthwyol | Diploma Lefel 3 Diploma mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol |
| C. Layn | Uwch Weithiwr Cynorthwyol | Diploma Lefel 3 Diploma mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol |
| N. Lewis | Gweithiwr Cynorthwyol | Diploma Lefel 3 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol |
| R. Cree | Gweithiwr Cynorthwyol | Diploma Lefel 2 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol |
| L. Evans | Gweithiwr Cynorthwyol | Diploma Lefel 2 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol |
| L. Roberts | Gweithiwr Cynorthwyol | Toward Diploma Lefel 2 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol |
| S. Griffiths | Gweithiwr Cynorthwyol | Toward Diploma Lefel 2 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol |
| L. Williams | Gweithiwr Cynorthwyol | Toward Diploma Lefel 2 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol |

| B) LEFELAU STAFFIO |
| --- |
| Bydd y Rheolwr Cofrestredig yn cynnal asesiad risg o anghenion defnyddwyr y gwasanaeth ac yn trefnu nifer priodol o staff i adlewyrchu hyn, gan gynnwys digwyddiadau arbennig megis pan fydd grŵp mawr yn mynd oddi ar y safle. Adolygir asesiadau risg yn flynyddol neu yn gynt pan fydd disgwyl newid anghenion yn sylweddol. Mae'r gwasanaeth yn rhedeg 24 awr y dydd ac yn cael ei rannu yn dair sifft: bore, prynhawn a nos. Mae'r Rheolwr Cofrestredig ar alw yn rheolaidd ac mae ganddo neu ganddi amserlen gwaith sy'n gyffredinol yn adlewyrchu oriau agor gwasanaethau cymdeithasol ac asiantaethau allanol eraill. Gweler isod enghraifft o lefelau staffio arferol dros gyfnod 24 awr, heb gynnwys y Rheolwr Cofrestredig. |

| | |
| --- | --- |
| BORE<br>(07:00 – 14:00) | - Un Dirprwy Reolwr<br>- Dau i bum Gweithiwr Cynorthwyol |
| PRYNHAWN<br>(14:00 – 21:00) | - Un Dirprwy Reolwr<br>- Dau i bum Gweithiwr Cynorthwyol |
| NOS<br>(21:00 – 07:00+1) | - Un Gweithiwr Cynorthwyol (Yn effro)<br>- Un Gweithiwr Cynorthwyol (Yn cysgu)<br>- Un Dirprwy Reolwr neu Uwch Weithiwr Cynorthwyol ar alw o adref |

| C) STAFF ARBENIGOL |
| --- |
| Nid yw Plas Llannerchrugog yn cyflogi unrhyw staff arbenigol ond rydym yn cadw perthynas gwaith da gydag ymarferwyr ac arbenigwyr iechyd proffesiynol. |

## D) LLEOLIADAU STAFF YN Y GWASANAETH

Mae gan Blas Llannerchrugog tri llawr gyda chyfleusterau cydfyw yn bennaf ar y llawr ddaear a llofftydd wedi eu rhannu dros y tri llawr – daear, cyntaf ac ail.

Lleolir staff yn ôl y risgiau sy’n hysbys ar y pryd. Mae’r Dirprwy Reolwr sy’n arwain tîm yn penderfynu ble dylai staff cael eu lleoli yn ystod pob sifft, gyda’r llawr ddaear fel arfer yn cael blaenoriaeth ar gyfer y rhai gyda’r anghenion mwyaf.

Tua chanol y bore mae trefniadau yn cael eu hadolygu i ystyried unrhyw ddefnyddwyr gwasanaethau sydd wedi gadael y safle i fynychu gwasanaethau dydd neu’r coleg, er enghraifft, ac fel bod staff yn medru cynnig gweithgareddau a chymorth i’r rhai sy’n aros ar y safle.

## E) TREFNIADAU AR GYFER TASGAU WEDI’I DIRPRWYO

Y Rheolwr Cofrestredig sy’n bennaf gyfrifol am holl weithrediadau’r gwasanaeth ond mi fydd yn dirprwyo rhai cyfrifoldebau i’r Dirprwy Reolwyr a rhai Uwch Gweithiwyr Cynorthwyo. Gall dirprwyo ond digwydd pan gall y Rheolwr Cofrestredig dangos bod y gweithiwr sy’n derbyn y cyfrifoldeb yn gymwys i’w weithredu. Mesurir cymhwysedd trwy amryw ddulliau yn ôl y dasg, ond mae fel arfer yn golygu bod gweithiwr wedi cyflawni cymhwyster proffesiynol sy’n berthnasol i’r dasg, yn dangos cymhwysiad ymarferol a gyda’r gallu i ddangos unrhyw gofnodion o brofiad dan oruchwyliaeth gyda’r Rheolwr Cofrestredig.

## F) TREFNIADAU GORUCHWYLIO

UN-I-UN: Cynhelir goruchwyliaeth broffesiynol un-i-un gan aelod o’r tîm rheoli. Mae cylchred goruchwyliaeth yn cychwyn ar ddechrau pob blwyddyn ac yn cael ei gwblhau gyda gwerthusiad blynyddol. Mae’r nifer o sesiynau goruchwylio un-i-un yn dibynnu ar anghenion a phrofiad yr aelod o staff.

ARSYLWADAU A HAPWIRIADAU: Mae’r arweinydd iechyd a diogelwch yn gwirio elfennau o’r gwasanaeth ar hap a heb rybudd ac yn cofnodi’r canfyddiadau fel rhan o’r cynllun misol; un enghraifft byddai goruchwylio aelod o staff yn gweithio’n ddiogel yn y gegin.

DRWS AGORED: Mae gan y Rheolwr Cofrestredig bolisi drws agored pan nad yw mewn cyfarfodydd. Mae hyn yn helpu staff i deimlo bod croeso iddyn nhw godi pryderon unrhyw bryd a does dim rhaid aros am un o’r cyfarfodydd un-i-un sy’n cael eu trefnu.

## G) HYFFORDDI STAFF

Mae Plas Llannerchrugog yn arfer fformat dwy haen ar gyfer hyfforddi sy'n cynnwys Diploma mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol sy'n gwneud fel sylfaen dysgu a datblygiad ac wedyn yn cael ei ychwanegu ato gyda rhaglen dysgu craidd o gyrsiau byr i adnewyddu gwybodaeth a diweddaru staff ar arferion gorau. Mae'r rhaglen dysgu craidd yn cael ei ddarparu dros gylchred tair blynedd ac mae'r hyfforddwyr yn ddigon hyblyg i gyflwyno deunyddiau newydd os fydd angen, megis newid i anghenion defnyddiwr.

Mae'r rhaglen dysgu craidd cyfredol ar gyfer 2018 i 2020 yn cynnwys:

| PWNC | |
|---|---|
| Heneiddio | |
| Pryder ac Anhwylder Deubegwn | |
| Awtistiaeth | |
| Ymddygiad Heriol | |
| Cyfrinachedd | |
| Gofal Dementia | |
| Diabetes | |
| Hyfforddi Tân | *Theori gyda hyfforddi ymarfer tân a defnyddio diffoddwr tân |
| Cymorth Cyntaf | *Hyfforddiant ymarferol |
| Hylendid Bwyd | |
| Iechyd a Diogelwch | *Rhaglen cynhwysfawr yn cynnwys CoSHH, cynorthwyo symud claf â llaw, ayyb |
| Rheoli Heintiau | |
| Cynllunio Personol | |
| Cadw Cofnodion | |
| Trin Meddyginiaethau yn Ddiogel | *Theori gyda hyfforddiant ymarferol dan oruchwyliaeth |
| Gwarchod/Diogelu | |
| Colled Synhwyraidd | |

Yn ogystal â'r uchod, mae aelodau'r tîm rheoli yn derbyn hyfforddiant pellach mewn meysydd megis:

| PWNC | |
|---|---|
| Asesu Anghenion | |
| Cynllunio Gofal | |
| Asesu Risg | |
| Goruchwyliaeth a Gwerthusiad | |

Wrth adnabod dulliau darparu hyfforddiant, mae'r gallu i'w addasu yn nodwedd allweddol o'r strategaeth dysgu a datblygu.

## ADRAN 6: CYFLEUSTERAU A GWASANAETHAU



Mae Plas Llannerchrugog yn sefyll ar gyrion cymuned pentref Rhosllannerchrugog. Y gred yw i'r plas fod wedi ei godi dechrau'r 18fed ganrif fel fferm yn wreiddiol ond mae wedi cael ei ddefnyddio i ddarparu gwasanaethau gofal ers y 1960au.

Mae Plas Llannerchrugog erbyn hyn yn cynnig gwasanaethau gofal preswyl ar gyfer oedolion gydag anableddau dysgu ac anghenion iechyd meddwl. Dyw'r gwasanaeth heb ei gofrestru i ddarparu gofal nyrsio.

Mae gan yr adeilad 15 ystafell wely ar gyfer defnyddwyr ein gwasanaethau a saith ystafell ymolchi (dau fath a phum cawod) dros dri llawr. Mae hefyd dwy lolfa, dwy ystafell fwyta a dwy gegin.

Er mwyn gwneud y mwyaf o'r lle awyr agored mae dwy ardd fawr wedi eu datblygu yn ogystal â gardd synhwyro sydd ar wahân er mwyn cefnogi unigolion gyda namau synhwyraidd.

Mae meintiau'r ystafelloedd (mewn metrau sgwâr) fel a ganlyn:

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ystafell 1: | 18.45$m^2$ | Ystafell 9 [gyda en-suite]: | 16.8$m^2$ |
| Ystafell 2: | 14.52$m^2$ | Ystafell 10: | 22$m^2$ |
| Ystafell 3 [gyda en-suite]: | 15$m^2$ | Ystafell 11: | 12.1$m^2$ |
| Ystafell 4: | 12.02$m^2$ | Ystafell 12: | 13.56$m^2$ |
| Ystafell 5: | 22.1$m^2$ | Ystafell 13: | 16.54$m^2$ |
| Ystafell 6: | 13.26$m^2$ | Ystafell 14: | 15.32$m^2$ |
| Ystafell 7: | 16.78$m^2$ | Ystafell 15 [gyda en-suite]: | 35.56$m^2$ |
| Ystafell 8: | 15.74$m^2$ | | |

| | |
|---|---|
| **A) NIFER YSTAFELLOEDD** | 14 Ystafell Sengl<br>1 Ystafell a Rennir |
| **B) NIFER YSTAFELLOEDD GYDA CHYFLEUSTERAU EN SUITE** | 3 |
| **C) NIFER O FANNAU BWYTA** | 2 |
| **D) NIFER O FANNAU CYMUNEDOL** | 3 |

| **E) CYFLEUSTERAU YMOLCHI ARBENIGOL** |
|---|
| Mae pob cyfleuster ymolchi wedi ei ddylunio a'i adeiladu gyda hygyrchedd mewn golwg ac mae'r gwasanaeth yn gwneud defnydd o ddwy ystafell gawod, dwy ystafell gyda bath ac un ystafell wlyb bwrpasol gyda chawod i gwrdd ag ystyr o anghenion amrywiol. |

| **F) OFFER ARBENIGOL** |
|---|
| Gall Plas Llannerchrugog caffael ystyr o offer a dyfeisiau cynorthwyol yn ôl anghenion unigolion, yn amrywio o fod angen cadeiriau olwynion ar gyfer anghenion symudedd i ddyfeisiau monitro am ffit epileptig. Mae gan y gwasanaeth berthynas da gydag arbenigwyr iechyd a chyflenwyr arbenigol i sicrhau bod posib caffael unrhyw offer sydd angen arnom ni. |

| **G) TREFNIADAU DIOGELWCH MEWN LLE A DEFNYDD CCTV** |
|---|
| Dyw'r gwasanaeth ddim yn gweithredu systemau cloi electronig ac mae'r amgylchedd wedi ei gynllunio yn bwrpasol i hyrwyddo annibyniaeth gan efelychu mor agos â phosib tŷ arferol yn y gymuned.<br>Gofynnir i ymwelwyr i'r neuadd llofnodi i mewn ac allan ar gofrestr y safle a pan fo angen i ddangos prawf o bwy ydyn nhw. Mae'n rhaid i staff ofyn i ymwelwyr nad ydyn nhw'n eu nabod i brofi pwy ydyn nhw ac maent yn derbyn hyfforddiant i wneud hyn mewn modd proffesiynol a diogel.<br>Gyda'r nos mae larymau yn weithredol a'r holl ddrysau wedi'u cau yn y rhannau o'r adeilad na sy'n cael eu defnyddio, ond dyw unigolion ddim yn cael eu rhwystro rhag mynd tu allan.<br>Ni all y gwasanaeth caniatáu mynediad i unrhyw un gyda hanes o gynnau tanau ac mae ein polisi ysmygu yn caniatáu ysmygu tu allan yn unig.<br>Nid yw'r gwasanaeth yn gweithredu CCTV ac os bydd y fath systemau camerâu yn cael ei osod yn y dyfodol mi fydd yn cydymffurfio â'r Rheoliadau Cyffredinol Gwarchod Data (GDPR). |

## H) MYNEDIAD I OFOD A CHYFLEUSTERAU TU ALLAN AR Y SAFLE

Mae gan Blas Llannerchrugog tri gofod tu allan a phob un yn cael ei ddefnyddio ar gyfer pwrpasau ac anghenion gwahanol.

### GARDD UN

Mae gardd un yn ofod agored sy'n cael ei adnabod yn anffurfiol fel y 'Cwrt Tenis' gan ei fod yn sgwâr mawr. Mae'r 'Cwrt Tenis' yn aml yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gemau awyr agored a chwaraeon lawnt, yn enwedig yn yr haf.

### GARDD DAU

Mae gardd dau yn ofod llai o faint gyda choeden fawr yn ei chanol y mae rhai unigolion yn hoffi eisteddi oddi dani i ddarllen ac mae hefyd tŷ gwydr pwrpasol a gweithgareddau garddio.

Mae gan ardd dau batio mawr ar gyfer barbeciws a bwyta tu allan pan mae'r tywydd yn braf.

Mae gan ardd dau hefyd sied beiciau pwrpasol ar gyfer unrhyw un sy'n dewis dod a beic gyda nhw i'r gwasanaeth.

### GARDD TRI

Mae gardd tri yn ardd synhwyraidd bwrpasol i gefnogi defnyddwyr gyda namau ar eu synhwyrau ac eraill gallai elwa o fuddion therapiwtig o ysgogi'r synhwyrau. Ysgogi'r synhwyrau oedd y ffocws wrth raid dyluniad yr ardd a gweithiodd y gwasanaeth gydag unigolion i adnabod cysyniadau yr oedden nhw yn teimlo eu bod yn therapiwtig iddyn nhw.

| | |
|---|---|
| GOLWG: | Planhigion â lliwiau llachar; crychdonnau ar wyneb pwll dŵr |
| CLYW: | Clychseiniau gwynt; llwybr graean; bywyd pwll dŵr |
| AROGL: | Blodau aromatig |
| CYFFWRDD: | Llwybrau graean [traed]; rhisgl coed [dwylo] |

# ARDAN 7: TREFNIADAU LLYWODRAETHU A MONITRO ANSAWDD

## A) UNIGOLYN CYFRIFOL


Yr Unigolyn Cyfrifol am y gwasanaeth ym Mhlas Llannerchrugog yw Mr Peter Greenwood. Fo hefyd yw’r Rheolwr Cofrestredig ym Mhlas Llannerchrugog a Chyfarwyddwr Life Long Learning 4 Living, y cwmni sy’n rhedeg y gwasanaeth.

Mae’r Unigolyn Cyfrifol yn gyfrifol am oruchwylio rhaglen flynyddol o archwilio a sicrwydd ansawdd ac i adrodd ar gasgliadau a datblygiadau yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol bob chwarter blwyddyn. Mae gan yr Unigolyn Cyfrifol hefyd awdurdod dirprwyedig gan Life Long Learning 4 Living i gyflogi a diswyddo rheolwyr.

Mae gan yr Unigolyn Cyfrifol hefyd gyfrifoldeb dros sicrhau cydymffurfiaeth â fframwaith polisïau’r sefydliad a gweithio gyda grwpiau amryw i sicrhau ei fod yn cael ei weithredu a bod ceisio cael adborth.

Mae’r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â’r gwasanaeth bob diwrnod gwaith ar gyfartaledd a phob yn ail benwythnos ac mae yn bresennol yn rheolaidd mewn cyfarfodydd allweddol.

## B) STRWYTHUR RHEOLI’R GWASANAETH



## C) SICRHAU ANSAWDD

Mae'r gwasanaeth yn cynnal ystyr o ymarferion sicrwydd ansawdd ac yn cael ei archwilio yn rheolaidd gan asiantaethau allanol.

<u>Sicrhau Ansawdd yn Fewnol</u>

**ARCHWILIAD YR UNIGOLYN CYFRIFOL –** Mae Life Long Learning 4 Living Cyf yn gofyn bod yr Unigolyn Cyfrifol yn cynnal archwiliad pob chwarter o holl swyddogaethau rheolaeth y busnes, gan gynnwys tasgau wedi'u dirprwyo, ac i adrodd nôl i'r sefydliad.

**BUDDSODDWYR MEWN POBL –** Mae'r gwasanaeth yn gweithio gydag Investors in People i gadw ein hachrediad safon rheoli pobl yn ôl eu fframwaith sy'n cael ei hadnabod yn rhyngwladol. Mae'r gwasanaeth wedi sicrhau'r achrediad hyn ers 2011.

<u>Allanol [Gwasanaethau Gofal]</u>

**AROLYGIAETH GOFAL CYMRU –** Yr arolygiaeth genedlaethol yng Nghymru sy'n cofrestru, archwilio a hyrwyddo ansawdd diogelwch a gwasanaethau er lles ddefnyddwyr yng Nghymru.

**GWASANAETH DATGELU A GWAHARDD (DBS) –** Rhaid i bob aelod staff pasio archwiliad i'w gefndir cyn medru ymuno â'r lle gwaith.

**AROLYGIAD MONTIRO GAN YR AWDURDOD LLEOL –** Mae pob awdurdod lleol rydym yn gweithio gyda nhw yn cynnal arolygiadau monitro yn ôl eu polisïau mewnol eu hunain.

<u>Allanol [Iechyd a Diogelwch]</u>

**AROLYGIAD IECHYD A DIOGELWCH GAN YR AWDURDOD LLEOL -** Mae pob awdurdod lleol rydym yn gweithio gyda nhw yn cynnal arolygiadau monitro yn ôl eu polisïau mewnol eu hunain. Cadarnhaodd yr arolygiad diwethaf nad oes unrhyw anghenion pellach bod yn rhaid i'r gwasanaeth eu cyflawni.

**GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU** – Mae'r gwasanaeth tân yn cynnal arolygiadau o'r adeiladau ac yn adolygu gweithdrefnau ac ymarferion mewnol fel cynnal y tŷ a'i gwacáu mewn argyfwng. Cadarnhaodd yr arolygiad diwethaf nad oes unrhyw anghenion pellach bod yn rhaid i'r gwasanaeth eu cyflawni.

**IECHYD AMGYLCHEDDOL WRECSAM –** Mae'r gwasanaeth yn cael ei arolygu gan dîm Iechyd Amgylcheddol Wrecsam, gan ffocysu ar safonau yn y gegin a thriniaeth ddiogel o fwyd. Mae gan y gwasanaeth sgôr 5 seren am ei arferion hylendid bwyd, y sgôr uchaf bosib.

## D) CWYNION

Ym Mhlas Llannerchrugog rydym yn ymdrechu o hyd i sicrhau eich bod yn cael boddhad o'n gwasanaethau. Os oes unrhyw beth nad ydych yn hapus gyda, rydym yn eich annog i drafod y mater gyda'n staff er mwyn eich helpu. Os nad ydych eisiau trafod gyda staff neu os fyddwch wedi gwneud felly, gallwch wneud cwyn mewn ysgrifen i'r rheolwr.

Os oes angen unrhyw gymorth arnoch ar unrhyw bryd, gallwch ofyn am eiriolwr i ymweld â ni.

**Cam 1: Gwneud Cwyn**

- Rhowch eich cwyn mewn ysgrifen. Gofynnwch i ni os ydych yn teimlo bod angen cymorth arnoch.
- Cyflwynwch y gŵyn i'r Rheolwr Cofrestredig.
- Os ydych yn credu na all y gwasanaeth delio â'ch cwyn gallwch mynd yn syth at yr awdurdod lleol [Cam 4].

**Cam 2: Ymateb i Gŵyn**

- Caiff y gŵyn ei hymchwilio yn fanwl.
- Bydd y Rheolwr Cofrestredig yn cyflwyno'r darganfyddiadau o fewn 10 diwrnod gwaith ac yn cynnig datrysiad os yw'n briodol.
- Os nad ydych yn fodlon gyda'r canlyniad, gallwch gwyno eto mewn ffurl apêl [Dychwelyd i Gam 1].

**Cam 3: Codi i Adolygiad Mewnol**

- Os ydych yn anfodlon gyda'r canlyniad, gallwch apelio i'r rhiant-gwmni ymchwilio.
- Caiff y gŵyn ei hymchwilio gan gyfarwyddwr a enwebwyd i sicrhau boy y gwasanaeth wedi rhoi ail-ystyriaeth o'r newyyd i'ch cwyn.
- Bydd y cyfarwyddwr a enwebwyd yn cyflwyno'r darganfyddiadau o fewn 10 diwrnod gwaith ac yn cynnig datrysiad os yw'n briodol.

**Cam 4: Codi i'r Awdurdod Lleol**

- Os ydych yn parhau yn anfodlon gyda chanfyddiadau'r adolgyiad mewnol, gallwch apelio yn allanol i'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am y lleoliad.
- Os ydych yn teimlo na all y gwasanaeth ymdrin â'r gŵyn mewn modd teg, gallwch fynd yn syth i'r cam hwn ond rhaid bod yn barod i gyfiawnhau eich dewis.
- Bydd gan yr awdurdod lleol ei drefniadau ei hun i ddelio â chwynion..

**Cam 5: Codi i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**

- Os ydych yn parhau yn anfodlon bydd cyflafareddu annibynnol yn cael ei geisio a bydd gennych gyfle hefyd i gyflwyno eich achos i'r Ombwdsmon.
- Bydd canlyniad hyn yn derfynol.

**Cwynion Difrifol:**

Ceir cwynion o natur ddifrifol eu pasio ymlaen yn uniongyrchol at wasanaethau cyhoeddus a fydd yn dilyn eu prosesau mewnol eu hunain.

## E) YMGYNGHORI Â DEFNYDDWYR GWASANAETH, STAFF AC ERAILL

| YMGYNGHORI Â DEFNYDDWYR GWASANAETH |
| --- |
| **ADOLYGIADAU GWEITHWYR ALLWEDDOL:** Bydd gweithiwr allweddol defnyddiwr gwasanaeth yn cynnal adolygiadau misol fel rhan o broses y cynllun gwasanaeth. Pwrpas hyn yw medru cynllunio i wneud addasiadau trwy gydol y flwyddyn ac i gytuno ar weithredoedd y bydd pob parti yn gyfrifol amdanynt.<br><br>**ADRODDIAD SICRWYDD ANSAWDD:** Mae pob defnyddiwr gwasanaeth yn cael y cyfle i gymryd rhan yn yr arolwg sicrwydd ansawdd blynyddol, sy'n ceisio adborth ar feysydd allweddol o gyflenwi'r gwasanaeth. Mae darganfyddiadau'r arolwg yn cael eu cyflwyno yn ddienw mewn adroddiad sydd ar gael i bawb.<br><br>**AROLYGON MEWNOL:** O bryd i'w gilydd bydd y gwasanaeth yn darparu arolygon thematig ar faterion penodol megis darpariaeth gweithgareddau, ansawdd bwyd a diod, ayyb.<br><br>**CYFARFODYDD TŶ:** Prif bwrpas cyfarfodydd tŷ yw sicrhau bod yna fforwm addas ar gael er mwyn trafod materion sy'n effeithio ar gyd-fyw mewn grŵp. |

| YMGYNGHORI Â STAFF |
| --- |
| **GORUCHWYLIAETH PROFFESIYNOL:** Mae gan bob aelod staff cylchred 12 mis dan oruchwyliaeth sy'n cynnwys nifer o gyfarfodydd goruchwylio proffesiynol un-i-un a gwerthusiad blynyddol ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r nifer o sesiynau goruchwylio sydd gan bob gweithiwr yn amrywio yn ôl yr angen â phrofiad.<br><br>**CYFAFODYDD UWCH REOLWYR:** Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd gyda rheolaeth y gwasanaeth i drafod polisi, newid mewn anghenion a statws tasgau dirprwyedig. |

| YMGYNGHORI AG ERAILL |
| --- |
| **TEULUOEDD:** Gwahoddir teuluoedd yn rheolaidd i fynychu cyfarfodydd yn ôl disgresiwn y defnyddiwr gwasanaeth. Gwahoddir hefyd i gymryd rhan mewn arolwg blynyddol i sicrhau ansawdd.<br><br>**GWEITHWYR IECHYD PROFFESIYNOL:** Mae gan y gwasanaeth berthynas gwaith cryf gyda gweithiwyr iechyd proffesiynol ac rydym yn rheolaidd yn cefnogi apwyntiadau gyda defnyddwyr gwasanaeth.<br><br>**TRYDYDD PARTÏON:** Mae'r gwasanaeth yn cynnal deialog gyda thrydydd partïon megis gwasanaethau dydd, swyddogion yr awdurdod lleol a rheolyddion. |

## CYSYLLTU Â NI

| | |
|---|---|
| Rheolwr y gwasanaeth: | Mr. Oliver Greenwood |
| Enw'r gwasanaeth: | Plas Llannerchrugog |
| Cyfeiriad y gwasanaeth: | Plas Llannerchrugog,<br>Stryt y Plas,<br>Rhosllannerchrugog,<br>Wrecsam,<br>LL14 1TG |
| Ffôn: | 01978 840186 |
| Ebost: | oliver.greenwood@llanerchrugoghall.co.uk |

| AROLYGAETH GOFAL CYMRU | |
|---|---|
| Cyfeiriad: | Swyddfa Llywodraeth Cymru,<br>Sarn Mynach,<br>Llandudno Junction,<br>LL31 9RZ |
| Ffôn: | 0300 7900 126 |

| GWASANAETHAU CYMDEITHASOL I OEDOLION YN WRECSAM* | |
|---|---|
| Cyfeiriad: | Greenacres,<br>Ffordd Rhosddu,<br>Wrecsam,<br>LL11 2NW |
| Ffôn: | 01978 292066 |

* Mae ein gwasanaeth ar agor i unrhyw un, ond os nad ydych yn byw yn ardal Wrecsam yna cysylltwch â'ch awdurdod lleol am ragor o wybodaeth.